


## Ymunwch â ni yfory – 2 o'r gloch

Cofiwch fod croeso i chi ymuno gyda ni yfory wrth i ni orymdeithio trwy Aberystwyth i ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen.

Byddwn yn cwrdd ar dop y dre', ger y cloc, o 1:45yp ymlaen er mwyn ymuno yn y parêd am 2 o'r gloch.

## *Join us tomorrow - 2 o'clock*

*Remember you are welcome to join us tomorrow as we march through Aberystwyth to celebrate St Dwynwen's Day.*

*We will meet at the top of the town, near the clock, from 1:45pm onwards in order to join the parade at 2 o'clock.*

---



## Cofrestru ar gyfer Dawns ac Offerynnol

Fel y nodir yn y Calendr Hanner Tymor, mae'n rhaid cofrestru ar gyfer cystadlaethau dawnsio ac offerynnol YR URDD cyn diwedd dydd Llun y 27ain o Ionawr.
Byddwn ni fel ysgol yn cofrestru y grwpiau dawnsio, ond os ydych am gystadlu fel unigolyn, bydd yn rhaid i chi gofrestru ar system yr Urdd eich hun. Yr un peth sy'n wir am y cystadlaethau offerynnol – mi gofrestrwn ni y Gerddorfa yn unig. Gwnewch yn siŵr eich bod yn aelod o'r Urdd os gwelwch yn dda, neu fyddwn ni ddim yn gallu eich cofrestru yn y grwpiau dawns/cerddorfa.
I ymaelodi : Ymuno | Urdd Gobaith Cymru
I gofrestru unigolion : Mewngofnoda i'r PORTH



## *Registering for Dance and Instrumental*

*As stated in the Half Term Calendar, registration for YR URDD's dancing and instrumental competitions must be done before the end of Monday the 27th of January.*
*We as a school will register the dance groups, but if you want to compete as an individual, you will have to register on the Urdd system yourself. The same is true for the instrumental competitions - we only register the Orchestra. Please make sure you are a member of the Urdd, otherwise we will not be able to register you in the dance/orchestra groups.*
*To join the Urdd : Join | Urdd Gobaith Cymru*
*To register individuals : Sign in to Y Porth*

---

## Noddi Eisteddfod Cynradd Cylch Ystwyth

Mae Pwyllgor Cylch Ystwyth wedi cysylltu gyda phob ysgol yn gofyn i ni rannu neges gyda chi os oes gennych ddiddordeb i gefnogi Eisteddfod Cylch Ystwyth eleni, drwy osod hysbyseb yn rhaglenni y dydd? Maent yn creu rhaglen du a gwyn o safon, sydd yn cael eu ledu i gynulleidfa eang ardal Aberystwyth a thu hwnt. Bydd eich hysbyseb i'w weld yn rhaglen yr Eisteddfod ganlynol: **Eisteddfod Cynradd Cylch Ystwyth** (Neuadd Fawr, Aberystwyth) Fel noddwr i'r digwyddiad, byddant yn eich gwahodd i'r Eisteddfodau yn rhad ac am ddim. Os oes gennych ddiddordeb, anfonwch eich hysbyseb erbyn y 14eg o Chwefror os gwelwch yn


## *Sponsoring Ystwyth Primary Eisteddfod*

*The Ystwyth Area Urdd Committee has contacted each school asking us to share a message with you if you are interested in supporting the Ystwyth Area Eisteddfod this year, by placing an advertisement in their programmes? It will feature in a quality black and white programme, which is spread to a wide audience in the Aberystwyth area and beyond. Your advertisement will appear in the program of the following Eisteddfod: Cylch Ystwyth Primary Eisteddfod (Great Hall, Arts Centre) As a sponsor of the event, they will invite you to the Eisteddfod for free. If you are interested, please send your*

dda, ar ffurf jpeg, png neu pdf os yn bosib at Celt John celtjohn@urdd.org
Cost hysbyseb fydd £25 am chwarter tudalen neu £50 am hanner tudalen.

*advert by the 14th of February, in jpeg, png or pdf format if possible to Celt John celtjohn@urdd.org*
*The cost of an advertisement will be £25 for a quarter page or £50 for a half page.*

---




## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## *Half term Calendar*

*Here is the link to the Half Term Calendar for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

---

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher***
**24/01/2025**
www.ysgolgymraeg.cymru







https://gweithgareddau.urdd.cymru/